

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwysu Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020
Swyddog(ion) sy'n cwblhau'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Adran:	Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Pennaeth yr Is-adran/USC (enw):	Neil Hemington
Ysgrifennydd y Cabinet/Gweinidog â chyfrifoldeb:	Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Dyddiad Dechrau:	Ebrill 2020

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Diwygiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (“Gorchymyn 2012”)

Cefndir

Mae Adran 17 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn mewnosod Adran 61Z yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae Adran 61Z yn cyflwyno gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio os yw'r datblygiad arfaethedig yn cyfateb i ddisgrifiad a nodir mewn gorchymyn datblygu. At y diben hwn, nodir y weithdrefn yn Rhan 1A o Orchymyn 2012. Mae'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio yn gyfyngedig i ddatblygiad sy'n cyfateb i'r diffiniad o ddatblygiad mawr, fel y rhagnodir yn erthygl 2 o Orchymyn 2012, ac mae'n cynnwys unrhyw un neu fwy o'r canlynol:

- a) cloddio a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion gweithio mwynau;
- b) datblygu gwastraff;
- c) darparu anhedd-dai lle—
 - i. mae nifer yr anhedd-dai a gaiff eu darparu yn 10 neu'n fwy; neu
 - ii. caiff y datblygiad ei godi ar safle ag arwynebedd o 0.5 hectar neu fwy ac nid yw'n hysbys p'un a yw is-baragraff (c) (i) yn berthnasol i'r datblygiad);
- d) darparu adeilad neu adeiladau lle mae arwynebedd y llawr i'w greu gan y datblygiad yn 1,000 o fetrau sgwâr neu fwy; neu
- e) datblygiad a godir ar safle ag arwynebedd o 1 hectar neu fwy;

Mae darpariaeth a geir yn Rhan 1A o Orchymyn 2012, adran 2C(1)(b), yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr roi cyhoeddusrwydd i'r cais arfaethedig drwy sicrhau bod gwybodaeth ragnodedig ar gael i'w harchwilio mewn lleoliad yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig am 28 diwrnod o leiaf. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn awgrymu, os yw'r datblygwr wedi darparu'r wybodaeth am y cais ar wefan, y gall y lleoliad i'r cyhoedd edrych arni fod yn llyfrgell neu'n adeilad cyhoeddus arall lle mae cyfleusterau cyfrifiadur ar gael i'r cyhoedd. Fel arall, gall y datblygwr ddarparu copi caled mewn adeiladau cyhoeddus. Gellir defnyddio adeilad preifat hefyd, ond rhaid i'r cyhoedd allu cael mynediad iddo.

Fel rhan o'r mesurau a gyflwynwyd fel rhan o'r ymateb parhaus i COVID-19, mae pob adeilad cyhoeddus nad yw'n hanfodol wedi cael ei gau, ceir cyfyngiadau ar deithio nad yw'n hanfodol a chynghorir rhai grwpiau penodol i beidio â gadael eu cartrefi. O ganlyniad i hynny, ni all datblygwyr gydymffurfio â holl ofynion Rhan 1A. Ni ddylai ceisiadau am ddatblygiadau mawr nad oes ymgynghoriad cyn ymgeisio wedi cael ei gwblhau ar eu cyfer yn unol â'r darpariaethau a ragnodir yn Rhan 1A o Orchymyn 2012 gael eu cyflwyno i awdurdodau cynllunio lleol.

Cynnig

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig diwygio Rhan 1A o Orchymyn 2012 i gael gwared ar y gofyniad i ddarparu gwybodaeth mewn lle lleol. Rhaid i'r holl wybodaeth fod ar gael ar-lein yn lle hynny. Bydd hefyd yn ofynnol i ddatblygwyr roi rhif ffôn cyswllt ar eu hysbysiad angenrheidiol (h.y. hysbysiad safle a llythyrau hysbysu uniongyrchol) ar gyfer pobl nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwyd, er mwyn iddynt drafod y datblygiad arfaethedig a gofyn am gopïau caled o'r wybodaeth lle bo angen. Caiff hyn ei drafod ymhellach yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

Nod y cynigion yw ailddechrau'r broses ymgynghori cyn ymgeisio fel bod modd cyflwyno ceisiadau am ddatblygiadau mawr, nad yw wedi bod yn bosibl ers i gyfyngiadau symud COVID-19 gael eu cyflwyno (os nad oedd y broses ymgynghori cyn ymgeisio wedi'i chwblhau cyn i'r adeiladau cyhoeddus gau a chyn i'r cyfyngiadau eraill gael eu rhoi ar waith).

Hefyd, cynigir diwygio Erthygl 16 o Orchymyn 2012. Mae Erthygl 16 yn rhagnodi bod rhaid i gyngor cymuned roi gwybod cyn gynted â phosibl i'r awdurdod cynllunio lleol sy'n penderfynu cais cynllunio a yw'n dymuno gwneud unrhyw sylwadau ynghylch y modd y dylid penderfynu'r cais, a bod rhaid iddo gyflwyno unrhyw sylwadau i'r awdurdod hwnnw o fewn 14 diwrnod (neu 30 diwrnod yn achos cais AEA) ar ôl iddo gael ei hysbysu ynglŷn â'r cais. Ni chaiff yr awdurdod cynllunio benderfynu'r cais o fewn y cyfnod hwn oni bai bod y cyngor cymuned wedi cyflwyno sylwadau neu roi gwybod iddo nad yw'n bwriadu gwneud unrhyw sylwadau, pa un bynnag a ddaw gyntaf; Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried unrhyw sylwadau a ddaw i law a hysbysu'r cyngor cymuned ynglŷn â'r penderfyniad.

Cynigir diwygio Erthygl 16(1) o Orchymyn 2012 i ymestyn y cyfnod a roddir i gynghorau cymuned a thref gyflwyno sylwadau o 14 diwrnod i 21 diwrnod oherwydd yr anawsterau wrth drefnu a chynnal cyfarfodydd rheolaidd yn sgil cyfyngiadau COVID-19.

Diwygiadau i Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 ("Gorchymyn 2016").

Cefndir

Mae Erthygl 12 o Orchymyn 2016 yn nodi'r gofynion cyffredinol sy'n gymwys wrth wneud cais cynllunio am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae Erthygl 3 o Orchymyn 2016 yn galluogi person i ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig at ddibenion bodloni unrhyw rai o ofynion Gorchymyn 2016, yn enwedig rhoi neu anfon unrhyw ddatganiad, hysbysiad neu ddogfen arall at unrhyw berson arall. Gan ddibynnu ar Erthygl 3, caiff ceisiadau am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol eu cyflwyno'n electronig, ond ceir darpariaeth arbennig yn Erthygl 12(5) o Orchymyn 2016 sy'n ei gwneud yn ofynnol adneuo copi caled o'r cais cynllunio am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol gyda Gweinidogion Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol ar yr un diwrnod.

Erbyn hyn, mae problemau ymarferol wedi codi lle y gall ceisyddion geisio cyflwyno cais ac yna fethu â chydymffurfio â gofynion Erthygl 12(5) o Orchymyn 2016 oherwydd y cyfyngiadau parhaus mewn ymateb i COVID-19, a'r ffaith bod adeiladau cyhoeddus nad ydynt yn hanfodol ar gau. O ganlyniad i hynny, ni ellir gwirio cydymffurfiaeth ag Erthygl 12(5) bob amser.

Cynnig

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig hepgor Erthygl 12(5), yn ogystal â gwneud diwygiadau canlyniadol cysylltiedig, er mwyn sicrhau y gellir cydymffurfio'n llawn â'r gofynion cyflwyno yn Erthygl 12 o Orchymyn 2016.

Byddai'r diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig yn gymwys mewn perthynas â chyfnod dros dro o 4 mis mewn ymateb i effeithiau COVID-19.

Cydweithio a Chynnwys

Oherwydd yr angen brys i wneud newidiadau deddfwriaethol er mwyn ymateb i argyfwng COVID-19 a chynnal gwasanaeth cynllunio sy'n gweithio, ni fu modd ymgynghori â'r cyhoedd ar y cynigion. Fodd bynnag, rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i randdeiliaid am y newidiadau posibl drwy lythyr, a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru, yn rhoi canllawiau ar weithredu gwasanaethau cynllunio.

Mae sawl ymgynghoriaeth gynllunio a datblygwr hefyd wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol i fynegi eu pryderon ynglŷn â chydymffurfio â deddfwriaeth ymgynghori cyn ymgeisio dan yr amgylchiadau presennol. Bydd y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd.

Effaith

Lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig. Caiff yr asesiad hwn ei gyhoeddi gyda'r offeryn statudol terfynol.

Ffyniant i Bawb

Mae Ffyniant i Bawb yn cydnabod bod penderfyniadau cynllunio yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd person ac yn anfon neges ynglŷn â gweithio'n wahanol. Mae'r strategaeth yn datgan ei bod yn hollbwysig cael y system gynllunio gywir er mwyn cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru.

Gwneir y newidiadau arfaethedig i weithdrefnau mewn ymateb i effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol COVID-19. Mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r heriau drwy ddiwygio gweithdrefnau dros dro er mwyn sicrhau bod y system ceisiadau cynllunio'n rhedeg yn esmwyth, gan helpu awdurdodau lleol i gyflawni datblygu cynaliadwy, a chefnogi busnesau drwy gynnal system gynllunio effeithiol sy'n cynnig ffordd o greu twf economaidd.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae adran 3 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, fel corff cyhoeddus, i weithio i wella llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a diwylliannol Cymru, drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sydd â'r nod o gyflawni'r nodau llesiant fel y'u nodir yn adran 4 o'r Ddeddf. Rhaid i'r camau a gymerir gan Weinidogion Cymru gynnwys pennu a chyhoeddi amcanion llesiant. Mae'r ffyrdd o

weithio (a nodir yn adran 5 o'r Ddeddf) wedi cael eu hystyried drwy gydol y gwaith o ddatblygu polisi'r deddfwriaeth hon.

Gallai'r newidiadau dros dro i weithdrefnau cynllunio a gynigir drwy'r newid deddfwriaethol hwn fel rhan o ymateb y Llywodraeth i argyfwng COVID-19 gyfrannu at nodau 'Cymru lewyrchus' a 'Cymru gydnerth' drwy addasu gweithdrefnau sydd eisoes yn bodoli i sicrhau y gall y system gynllunio barhau i weithio'n effeithiol ac, yn unol â hynny, y gall datblygwyr gynnal parhad busnes drwy barhau i gyflwyno ceisiadau cynllunio. Bydd hyn yn cyfrannu at sicrhau y bydd pobl mewn rolau sy'n gysylltiedig â'r system gynllunio yn parhau i gael eu cyflogi yn ystod yr argyfwng cenedlaethol hwn, gan helpu i greu cyfoeth ac economi fywiog.

Rydym wedi ystyried, o gofio dyletswydd llesiant Gweinidogion Cymru, a fyddai'n rhesymol gwneud penderfyniad gwahanol. Gall peidio â chaniatáu'r llacio hwn oedi'r ymateb i'r argyfwng, a fyddai'n cael effaith negyddol ar yr amcanion llesiant yn gyffredinol. O ganlyniad i hynny, mae swyddogion o'r farn bod yr argymhelliad yn gam rhesymol tuag at gyflawni amcanion llesiant Gweinidogion Cymru.

ADRAN 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT CYMDEITHASOL?

Pobl a Chymunedau

Diwygiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ("Gorchymyn 2012")

Ymgynghoriad cyn ymgeisio – y gymuned leol

Mae mesurau lliniaru wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau y gall pobl nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwrwyd gael y wybodaeth berthnasol o hyd. Rhoddir rhif ffôn ar yr hysbysiad safle y gall pobl heb fynediad i'r rhyngwrwyd ei ffonio i ofyn am gopi caled o'r wybodaeth berthnasol. Gallant hefyd drafod y datblygiad â'r datblygwr/asiant.

Hefyd, gofynnir i ddatblygwyr ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu eu hymgyngoriadau er mwyn sicrhau'r cyrhaeddiad ehangaf posibl.

Dim ond ar gam cyn ymgeisio'r broses gwneud cais y mae hyn. Bydd yr awdurdod cynllunio lleol hefyd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus statudol llawn ar ôl i gais cynllunio gael ei gyflwyno. Bydd hyn yn rhoi ail gyfle i'r gymuned leol wneud sylwadau ar y cais cyn iddo gael ei benderfyni.

Bydd y gymuned leol yn elwa'n uniongyrchol ar allu'r diwydiant datblygu i ailddechrau datblygiadau mawr – o gynlluniau preswyl mawr a fydd yn darparu tai mewn ardaloedd lle y ceir prinder cyflenwad tai i fusnesau'n adeiladu safleoedd newydd a fydd yn creu cyflogaeth, yn y diwydiant adeiladu ac i ddefnyddwyr terfynol y cyfleusterau hynny.

Ceisiadau cynllunio – cynghorau cymuned

Mae'r cynigion yn rhoi saith diwrnod ychwanegol i gynghorau cymuned gyflwyno eu hymateb i'r awdurdod cynllunio lleol. Mae COVID-19 wedi effeithio ar allu cynghorau cymuned i gynnal eu cyfarfodydd rheolaidd am fod y manau cyfarfod ar gau ac am fod yr aelodau'n dilyn y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol. Bydd yr amser ychwanegol yn rhoi cyfle i gynghorau cymuned drefnu cyfarfodydd o bell a chyflwyno ymatebion amserol i awdurdodau cynllunio lleol.

Hawliau Plant

Nid oes rheolau penodol mewn perthynas â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Cydraddoldeb

Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi cael ei gwblhau (gweler yr atodiad)

Prawfesur Gwledig

Caiff ymgyngoriadau cyn ymgeisio mewn ardaloedd gwledig eu cynnal yn yr un ffordd ag ardaloedd trefol. Fodd bynnag, cydnabyddir bod mwy o risg y bydd gan gartrefi fynediad cyfyngedig i'r rhyngwrwyd, os o gwbl, mewn ardaloedd gwledig.

Bydd y newid arfaethedig yn cael gwared ar yr angen i ddatblygwyr roi gwybodaeth am gynigion datblygu mewn lleoliadau cyhoeddus neu gynnig lleoliad cyhoeddus lle y gellid gweld y wybodaeth ar-lein, megis llyfrgell.

Bydd yr holl wybodaeth yn parhau i gael ei chyhoeddi ar-lein. Gall y rhai heb fynediad i'r rhyngwrwyd gysylltu â'r datblygwr dros y ffôn i drafod y cynnig yn uniongyrchol a gofyn am gopïau caled o wybodaeth berthnasol. Y datblygwr fydd yn talu'r costau sy'n gysylltiedig â hyn.

Gan mai mesur dros dro mewn ymateb i COVID-19 yw hwn, a bod mesurau lliniaru wedi cael eu rhoi ar waith, nid ystyrir bod angen cynnal asesiad effaith prawfesur gwledig llawn.

Iechyd

Ni fydd y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yn effeithio ar iechyd.

Preifatrwydd

Ni fydd y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yn effeithio ar breifatrwydd.

ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R GYMRAEG?

Llesiant Diwylliannol

Sut y gall y cynnig wneud cyfraniad gwirioneddol at y nod o hybu a diogelu diwylliant a threftadaeth ac annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau ac mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden? (trafodir y Gymraeg yn adran 3.2)

Ni fydd y cynigion yn cael dim effaith, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar y nod o hybu a diogelu diwylliant a threftadaeth.

Mae'r cynigion yn ceisio ailddechrau'r broses ymgynghori cyn ymgeisio a'r broses ddilynol o gyflwyno ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau mawr. Gallai hyn gynnwys cynlluniau ar gyfer y celfyddydau, chwaraeon a hamdden. Bydd y cynigion yn sicrhau y gall datblygiadau o'r fath fynd drwy'r system gynllunio yn ystod pandemig presennol COVID-19, gan atal oedi wrth adeiladu cyfleusterau o'r fath.

A yw'n bosibl y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar hybu a diogelu diwylliant a threftadaeth, neu ar allu pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau ac mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden? Os felly, pa gamau y gallwch eu cymryd i osgoi neu leihau'r effaith honno (er enghraifft, drwy gynnig cyfleoedd amgen)?

Ni fydd y cynigion yn arwain at effeithiau negyddol mewn perthynas â'r meysydd hyn.

Y Gymraeg

A oes cysylltiad clir rhwng y cynnig a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?

Dim cysylltiadau.

Disgrifiwch ac esboniwch effeithiau'r cynnig ar y Gymraeg, ac esboniwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau i'r Gymraeg. Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oedran (gan gynnwys effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? Dylech nodi eich ymatebion i'r canlynol yn eich atebion i'r cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

Nid ystyrir ei bod yn debygol y caiff y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig unrhyw effaith, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol ar y Gymraeg. Mân ddiwygiad dros dro i weithdrefn sydd eisoes yn bodoli o ganlyniad i COVID-19 yw hwn. Bydd yr holl ofynion statudol eraill sydd eisoes yn bodoli mewn perthynas â'r Gymraeg a'r darpariaethau perthnasol yn gymwys. O ran ymgynghori cyn ymgeisio, cynghorir datblygwyr eisoes i ddarparu'r holl wybodaeth yn ddwyieithog. Ni fydd y diwygiadau arfaethedig yn effeithio ar hyn.

Byddai'n afresymol mandadu newidiadau mewn perthynas â'r Gymraeg fel rhan o'r ddeddfwriaeth frys arfaethedig, yn enwedig gan na gynhaliwyd ymgynghoriad yn ei chylch.

ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD?

Lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig. Caiff yr asesiad hwn ei gyhoeddi gyda'r offeryn statudol terfynol.

ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL?

<ul style="list-style-type: none"> • Blaenoriaethau, heriau a chyfleoedd y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol 	<p>Ddim yn berthnasol. Diwygiadau gweithdrefnol dros dro mewn ymateb i COVID-19 yw'r newidiadau arfaethedig.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Bioamrywiaeth 	<p>Ddim yn berthnasol. Diwygiadau gweithdrefnol dros dro mewn ymateb i COVID-19 yw'r newidiadau arfaethedig.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Newid yn yr Hinsawdd 	<p>Ddim yn berthnasol. Diwygiadau gweithdrefnol dros dro mewn ymateb i COVID-19 yw'r newidiadau arfaethedig.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Aseiad Amgylcheddol Strategol 	<p>Ddim yn berthnasol. Diwygiadau gweithdrefnol dros dro mewn ymateb i COVID-19 yw'r newidiadau arfaethedig.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Aseiad Rheoliadau Cynfinoedd 	<p>Ddim yn berthnasol. Diwygiadau gweithdrefnol dros dro mewn ymateb i COVID-19 yw'r newidiadau arfaethedig.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol 	<p>Mae'r diwygiadau gweithdrefnol yn berthnasol i bob datblygiad, gan gynnwys rhai y mae angen llunio Datganiad Amgylcheddol ar eu cyfer. Bydd y datblygwr yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar-lein, gan ddarparu copïau caled (ar gais) i'r rhai nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwyd.</p>

ADRAN 6. COFNOD O'R ASESIADAU EFFAITH LLAWN SYDD EU HANGEN

Rydych bellach wedi penderfynu pa feysydd y mae angen cynnal asesiad effaith manylach ar eu cyfer. Rhestrwch nhw isod.

Aseiad Effaith	Oes/Nac Oes
Hawliau Plant	Nac oes
Cydraddoldeb	Oes
Prawfesur Gwledig	Nac oes
Iechyd	Nac oes
Preifatrwydd	Nac oes
Y Gymraeg	Nac oes
Economaidd / Aseiad Effaith Rheoleiddiol (AERh)	Oes
Cyfiawnder	Nac oes
Bioamrywiaeth	Nac oes
Newid yn yr Hinsawdd	Nac oes
Aseiad Amgylcheddol Strategol	Nac oes
Aseiad o'r Rheoliadau Cynefinoedd	Nac oes
Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol	Nac oes

ADRAN 7. CASGLIAD

Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi cael eu cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Oherwydd yr angen brys i wneud newidiadau deddfwriaethol er mwyn ymateb i argyfwng COVID-19 a chynnal gweithdrefn ymgynghori cyn ymgeisio sy'n gweithio, ni fu modd ymgynghori â'r cyhoedd ar y cynigion. Fodd bynnag, rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i randdeiliaid am y newidiadau posibl drwy lythyr, a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru, yn rhoi canllawiau ar weithredu gwasanaethau cynllunio. Mae'r adborth a gafwyd wedi dangos bod y newidiadau arfaethedig yn angenrheidiol.

Mae sawl ymgynghoriaeth gynllunio a datblygwr hefyd wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol i fynegi eu pryderon ynglŷn â chydymffurfio â deddfwriaeth ymgynghori cyn ymgeisio dan yr amgylchiadau presennol. Bydd y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd.

Mae angen i'r newidiadau deddfwriaethol ddod i rym cyn gynted â phosibl, er mwyn i'r addasiadau i weithdrefnau cynllunio allu lliniaru effeithiau cyfyngiadau COVID-19 ar deithio ac agor safleoedd, gan olygu bod modd cael system gynllunio sy'n gweithio. Bydd yn fodd i sicrhau bod caniatadau cynllunio ar gael i'r sector adeiladu eu rhoi ar waith cyn gynted ag y caiff y cyfyngiadau eu llacio, a thrwy hynny adfer cymaint â phosibl. Os na chaiff y newidiadau eu gwneud, ni ellir cynnal ymgynghoriadau cyn ymgeisio ac felly bydd y diwydiant datblygu'n parhau i gael ei atal rhag cyflwyno ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau mawr i awdurdodau cynllunio lleol. At hynny, ni fyddai modd cyflwyno ceisiadau cynllunio dilys am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Bydd hyn yn achosi ôl-groniad cynyddol o geisiadau cynllunio sy'n aros i gael eu cyflwyno, a fyddai'n effeithio ar y sector adeiladu, a'r economi, mewn cyfnod pan fydd adennill colledion ariannol yn bwysig er mwyn lleihau'r niwed economaidd a chymdeithasol tymor hwy a achosir.

Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Cadarnhaol (ymgynghoriad cyn ymgeisio)

- Bydd yn galluogi'r diwydiant datblygu i aildechrau'r broses ymgynghori cyn ymgeisio a'r broses ddilynol o gyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio sy'n arwain at adeiladu datblygiad mawr.
- Bydd yn sicrhau y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn parhau i gael incwm am y ffioedd sy'n gysylltiedig â cheisiadau am ddatblygiadau mawr.
- Bydd yn sicrhau bod y system ceisiadau cynllunio'n rhedeg yn esmwyth, gan helpu awdurdodau lleol i gyflawni datblygu cynaliadwy, a chefnogi busnesau drwy gynnal system gynllunio effeithiol sy'n cynnig ffordd o greu twf economaidd.

Negyddol (ymgyngoriad cyn ymgeisio)

- Mae'n bosibl y bydd darparu'r holl wybodaeth ar-lein yn atal y rhai nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwrwyd rhag gallu cymryd rhan yn y broses ymgyngoriad cyn ymgeisio.

Cadarnhaol (cynghorau cymuned)

- Bydd gan gynghorau cymuned amser ychwanegol i drefnu cyfarfodydd o bell a chyflwyno sylwadau i awdurdodau cynllunio lleol ar geisiadau cynllunio.

Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

I liniaru'r newidiadau i'r ymgyngoriad cyn ymgeisio, bydd yn ofynnol i ddatblygwyr roi rhif ffôn cyswllt ar eu hysbysiad angenrheidiol (h.y. hysbysiad safle a llythyrau hysbysu uniongyrchol) er mwyn i bobl nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwrwyd drafod y datblygiad arfaethedig yn uniongyrchol a gofyn am gopiâu caled o'r wybodaeth lle bo angen. Bydd hyn yn sicrhau y gall pawb gael y wybodaeth a chymryd rhan yn y broses ymgyngoriad, fel oedd yn bosibl cyn COVID-19. Hefyd, cynghorir datblygwyr i fanteisio i'r eithaf ar gyrhaeddiad y cyfryngau cymdeithasol a hysbysebu eu hymgyngoriadau ar dudalennau cymunedau lleol ar Facebook, Twitter a gwefannau eraill ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal â lledaenu'r neges ar lafar gwlad, dylai hyn sicrhau bod cyrhaeddiad ymgyngoriadau mor eang â phosibl tra bo'r cyfyngiadau symud ar waith.

Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo ddatblygu a phan fydd wedi'i gwblhau?

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith COVID-19 ar y system gynllunio. Newidiadau dros dro yw'r diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig, a chânt eu dirymu'n awtomatig bedwar mis ar ôl y dyddiad y daw'r offeryn statudol i rym. Fodd bynnag, gellir gwneud deddfwriaeth i gwtogi'r cyfnod hwn os bydd yr amgylchiadau'n caniatáu hynny. Os bydd effeithiau COVID-19 yn parhau ar ôl pedwar mis, gellir gwneud deddfwriaeth i ymestyn y cyfnod hwn hefyd.

ADRAN 8. DATGANIAD

Datganiad

Rwy'n fodlon bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n briodol.

Enw'r Uwch-Swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr: Neil Hemington

Adran: Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio

Dyddiad: Ebrill 2020

A. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn diwygio tair proses:

1. Ymgynghoriadau cynghorau cymuned (ceisiadau cynllunio)
2. Gofynion cyflwyno ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol
3. Ymgynghoriad cyn ymgeisio

Ymgynghoriadau cynghorau cymuned (ceisiadau cynllunio)

Nid ystyrir y bydd ymestyn y cyfnod a roddir i gynghorau cymuned gyflwyno sylwadau i awdurdod cynllunio lleol ar gais cynllunio o 14 diwrnod i 21 diwrnod yn cael effaith negyddol ar unrhyw grŵp neu nodwedd warchoddedig.

Datblygiadau cyflwyno ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

Nid ystyrir y bydd diwygio'r gofynion adneuo mewn perthynas â cheisiadau am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn cael effaith negyddol ar unrhyw grŵp neu nodwedd warchoddedig.

Ymgynghoriad cyn ymgeisio

Isod ceir asesiad o effeithiau'r newidiadau arfaethedig ar y broses cyn ymgeisio.

Cefndir

- i. Mae'n ofynnol i ddatblygwyr sy'n dymuno cyflwyno cais cynllunio mewn perthynas â datblygiad mawr gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd) yn rhagnodi gwybodaeth am y datblygiad y dylid sicrhau ei bod ar gael i'r cyhoedd edrych arni mewn lleoliad yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig am 28 diwrnod o leiaf.
- ii. Gall y lleoliad yn y cyffiniau naill ai gadw copi caled o'r wybodaeth neu gynnwys cyfleusterau cyfrifiadur sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio. Bydd hyn yn sicrhau y gall pobl heb fynediad i'r rhyngwyd gartref/yn y gwaith weld y cynnig datblygu a chymryd rhan yn y broses ymgynghori.
- iii. Caiff y cyfeiriad gwe a'r lleoliad ffisegol lle y gellir gweld y wybodaeth eu cyhoeddi ar hysbysiad safle a osodir y tu allan i safle'r datblygiad.

- iv. Oherwydd COVID-19, mae adeiladau cyhoeddus sydd wedi cael eu defnyddio i arddangos gwybodaeth, megis llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol ac asiantaethau tai, ar gau ar hyn o bryd. Felly, ni ellir bodloni'r gofyniad statudol i wahodd pobl i adeilad y gall y cyhoedd gael mynediad iddo ar hyn o bryd. Gan na all datblygwyr gynnal ymgynghoriadau cyn ymgeisio yn llawn, ni allant gyflwyno ceisiadau dilys am ganiatâd cynllunio ar gyfer cynigion datblygu mawr.

Cynnig

- v. Er mwyn i'r broses ymgynghori cyn ymgeisio, a'r broses ddilynol o gyflwyno ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau mawr, allu parhau tra bydd adeiladau cyhoeddus ar gau o hyd, rydym yn cael gwared ar y gofyniad i ddefnyddio lleoliad yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig er mwyn i'r cyhoedd weld gwybodaeth am y cynnig datblygu dros dro. Yn lle hynny, caiff yr holl wybodaeth ei darparu ar wefan, gyda chopïau caled (ar draul y datblygwr) ar gael ar gais.

Effaith

- vi. Ar hyn o bryd, ni ellir cwblhau'r broses ymgynghori cyn ymgeisio gan na all y datblygwyr gydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol.
- vii. Gall diwygio'r ddeddfwriaeth fel bod modd i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio barhau heb fod angen darparu copïau caled o'r cynnig dan sylw yn lleol, ynghyd â'r ffaith bod lleoliadau cyhoeddus lle y gellir cael mynediad i'r rhyngwrwyd ar gau, olygu na all aelodau o'r grwpiau canlynol gymryd rhan yn y broses ymgynghori:
1. Yr henoed – mae'n bosibl nad oes ganddynt ymwybyddiaeth ddigidol, neu nad oes ganddynt gyfrifiadur/dyfais sy'n gallu cysylltu â'r rhyngwrwyd gartref/yn y gwaith. Hefyd, gall cadw pellter cymdeithasol/hunanyrsu atal cymdogion/aelodau o'r teulu rhag helpu. Mae hefyd yn bosibl nad ydynt yn awyddus i chwilio am y fath wybodaeth ar-lein, gan eu bod wedi cael gwybodaeth o ffynonellau lleol bob amser o'r blaen.
 2. Aelwydydd incwm isel – mae'n bosibl nad oes ganddynt gyfrifiadur/dyfais sy'n gallu cysylltu â'r rhyngwrwyd gartref/yn y gwaith.
 3. Pobl anabl – mae'n bosibl na fydd person â nam corfforol yn gallu defnyddio dyfais sy'n gallu cysylltu â'r rhyngwrwyd.

Mesurau lliniaru

- viii. I'r rhai na allant gael y wybodaeth ar-lein, bydd yr hysbysiad safle neu'r llythyr uniongyrchol yn cynnwys manylion cyswllt er mwyn i'r cyhoedd allu siarad yn uniongyrchol â'r

datblygwr/tîm y prosiect i ofyn cwestiynau, a gofyn am gopiau caled o'r ddogfennaeth berthnasol yr hoffent ei gweld.

- ix. Mesur dros dro yw hwn, nes y bydd adeiladau cyhoeddus ar agor i'r cyhoedd unwaith eto.
- x. Os bydd y mesurau lliniaru a roddir ar waith yn methu â sicrhau y gall pawb gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, bydd ail gyfle i gymryd rhan yn y broses gynllunio ar ôl i'r cais cynllunio gael ei gyflwyno. Bydd pob cais cynllunio yn destun cyfnod cyhoeddusrwydd statudol a gynhelir gan yr awdurdod cynllunio lleol. Ar y cam gwneud cais, bydd y cyhoedd hefyd yn gallu cyflwyno sylwadau i'w cyngor cymuned a/neu aelod lleol yn ei rôl fel cynrychiolydd lleol a fydd, yn ei dro, yn gallu rhannu eu pryder/cefnogaeth fel rhan o'i ymateb i'r cais. At hynny, os caiff cais ei benderfynu gan y pwyllgor cynllunio, gall y cyhoedd ofyn am gael annerch y pwyllgor yn uniongyrchol i fynegi eu pryder/cefnogaeth mewn perthynas â'r datblygiad.

Ymgynghoriad

- xi. Oherwydd natur frys y diwygiad hwn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad ar y cynigion hyn. Mae angen i'r diwygiad arfaethedig ddod i rym cyn gynted â phosibl, er mwyn i'r addasiadau i weithdrefnau cynllunio allu lliniaru effeithiau cyfyngiadau COVID-19 ar deithio ac agor safleoedd, gan olygu bod modd cael system gynllunio sy'n gweithio. Bydd yn fodd i sicrhau bod caniatadau cynllunio ar gael i'r sector adeiladu eu rhoi ar waith cyn gynted ag y caiff y cyfyngiadau eu llacio, a thrwy hynny adfer cymaint â phosibl.
- xii. Os na chaiff y newidiadau hyn eu gwneud, ni ellir cynnal ymgynghoriadau cyn ymgeisio yn llawn ac felly caiff y diwydiant datblygu ei atal rhag cyflwyno ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau mawr i awdurdodau cynllunio lleol nad oes ymgynghoriad cyn ymgeisio wedi cael ei gynnal ar eu cyfer. At hynny, ni fyddai modd cyflwyno ceisiadau cynllunio dilys am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Bydd hyn yn achosi ôl-groniad cynyddol o geisiadau cynllunio sy'n aros i gael eu cyflwyno, a fyddai'n effeithio ar y sector adeiladu, a'r economi, mewn cyfnod pan fydd adennill colledion ariannol yn bwysig er mwyn lleihau'r niwed economaidd a chymdeithasol tymor hwy a achosir.

Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchoddedig:

Nodwedd warchoddedig neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?
<p>Oedran</p>	<p>Nid oes gan bawb fynediad i'r rhyngrwyd, na'r awydd i gael mynediad iddo, yn enwedig yr henoed.</p> <p>Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn casglu ac yn cyhoeddi data ar y defnydd o'r rhyngrwyd yn y DU. Yn absenoldeb ystadegau penodol i Gymru, rydym yn cymryd bod yr ystadegau hyn ar gyfer y DU gyfan yn berthnasol i Gymru.</p> <p>Yn 2019, roedd gan 93% o'r boblogaeth fynediad i'r rhyngrwyd. Er bod gan bron pob aelwyd fynediad i'r rhyngrwyd, nid oedd hyn yn wir am 7% ohonynt. O'r rhain, y rheswm nad oedd gan y rhan fwyaf ohonynt fynediad i'r rhyngrwyd oedd am eu bod yn teimlo nad oedd ei angen arnynt, gyda 61% yn nodi hynny yn 2019. Roedd diffyg sgiliau (34%) neu bryderon ynglŷn â phreifatrwydd neu ddiogelwch (33%) yn ffactorau hefyd.</p> <p>Dim ond 47% o oedolion 75 oed a throsodd sy'n defnyddio'r rhyngrwyd. O'r 4 miliwn o oedolion nad oeddent erioed wedi defnyddio'r rhyngrwyd o'r blaen yn 2019, roedd mwy na</p>	<p>Er bod nifer y bobl oedrannus sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn cynyddu, mae'n amlwg o'r dystiolaeth ystadegol mai oedolion 75 oed a throsodd sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd leiaf yn gyson.</p> <p>Felly, petai'r holl wybodaeth yn cael ei symud ar-lein, mae'n bosibl na fyddai aelodau oedrannus o'r cyhoedd yn gallu cael y wybodaeth angenrheidiol. Fodd bynnag, gellir rhoi mesurau lliniaru ar waith er mwyn sicrhau y gall pob aelod o'r cyhoedd nad yw'n defnyddio'r rhyngrwyd gael y wybodaeth a chymryd rhan yn y</p>	<p>Os nad oes gan berson fynediad i'r rhyngrwyd, neu os nad yw'n dymuno gweld gwybodaeth ar-lein, gall y person hwnnw (neu berson arall ar ei ran) gysylltu â'r datblygwr gan ddefnyddio'r rhif ffôn a ddangosir ar yr hysbysiad safle i ofyn am gopiâu caled o'r ddogfennaeth berthnasol. Rhaid anfon y copiâu caled hyn at y bobl sy'n gofyn amdanynt, a hynny ar draul y datblygwr.</p> <p>Bydd hyn yn sicrhau y gall pawb gael y wybodaeth – naill ai ar-lein neu ar ffurf copi caled – a chymryd rhan yn y broses ymgynghori.</p>

	<p>hanner (2.5 miliwn) yn 75 oed neu'n hŷn.</p> <p>https://cy.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/itandinternetindustry/bulletins/internetusers/2019</p> <p>https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/householdcharacteristics/homeinternetandsocialmediausage/bulletins/internetaccesshouseholdsandindividuals/2019</p> <p>Felly, gallai cael gwared ar y gallu i weld copi caled mewn cyfleuster cyhoeddus, neu gyfleuster cyhoeddus lle y gellir gweld y wybodaeth ar-lein, effeithio ar allu'r henoed i gymryd rhan yn y broses ymgynghori.</p>	<p>broses ymgynghori cyn ymgeisio o hyd.</p>	
Anabledd	<p>Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn casglu ac yn cyhoeddi data ar y defnydd o'r rhyngwrwyd yn y DU. Yn absenoldeb ystadegau penodol i Gymru, rydym yn cymryd bod yr ystadegau hyn ar gyfer y DU gyfan yn berthnasol i Gymru.</p> <p>Yn 2019, roedd cyfran y bobl a oedd wedi defnyddio'r rhyngwrwyd yn ddiweddar yn llai ymhlith oedolion a oedd yn anabl (78%) o gymharu â'r rhai nad oeddent yn anabl (95%).</p> <p>https://cy.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/itandinternetindustry/bulletins/internetusers/2019</p>	<p>Mae cyfran sylweddol o oedolion anabl yn gallu cael mynediad i'r rhyngwrwyd. Ers 2014, roedd nifer yr oedolion anabl a oedd wedi defnyddio'r rhyngwrwyd yn ddiweddar wedi cynyddu 13% i ychydig dros 10 miliwn yn 2019.</p> <p>Bydd y mesurau lliniaru arfaethedig yn sicrhau na fydd y bobl hynny na</p>	<p>Os bydd anabledd yn atal person rhag cael y wybodaeth ar-lein, gall y person hwnnw (neu berson arall ar ei ran) gysylltu â'r datblygwr ar y rhif ffôn a ddarperir ar yr hysbysiad safle (a fydd yn cael ei arddangos y tu allan i'r safle datblygu arfaethedig) i ofyn am gopiâu caled o'r holl wybodaeth sydd ar gael ar-lein. Y datblygwr fydd yn talu costau postio'r copiâu caled.</p>

		allant gael mynediad i'r rhyngrwyd yn cael eu hatal rhag cymryd rhan yn y broses ymgynghori.	Bydd hyn yn sicrhau y gall pawb gael y wybodaeth – naill ai ar-lein neu ar ffurf copi caled – a chymryd rhan yn y broses ymgynghori.
Ailbennu Rhywedd	Dim effaith gadarnhaol na negyddol	Ni fyddai rhywedd person yn effeithio ar ei allu i gael gwybodaeth ar-lein.	Dim
Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim effaith gadarnhaol na negyddol	P'un a fyddai rhywun yn feichiog neu ar gyfnod mamolaeth, byddai'n gallu cael gwybodaeth ar-lein.	Dim
Hil	Dim effaith gadarnhaol na negyddol	Ni fyddai hil person yn effeithio ar ei allu i gael gwybodaeth ar-lein.	Dim
Crefydd, cred ac anghred	Dim effaith gadarnhaol na negyddol	Ni fyddai crefydd person yn effeithio ar ei allu i gael gwybodaeth ar-lein.	Dim
Rhyw / Rhywedd	Dim effaith gadarnhaol na negyddol	Ni fyddai rhyw/rhywedd person yn effeithio ar ei allu i gael	Dim

		gwybodaeth ar-lein.	
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim effaith gadarnhaol na negyddol	Ni fyddai cyfeiriadedd rhywiol person yn effeithio ar ei allu i gael gwybodaeth ar-lein.	Dim
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim effaith gadarnhaol na negyddol	Ni fyddai statws priodasol person yn effeithio ar ei allu i gael gwybodaeth ar-lein.	Dim
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Dim effaith gadarnhaol na negyddol	Byddai plant a phobl ifanc yn parhau i gael gwybodaeth ar-lein	Dim
Aelwydydd incwm isel	Er bod 90% o oedolion yng Nghymru yn defnyddio'r rhyngwrwd (https://cy.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/itandinternetindustry/bulletins/internetusers/2019), mae'n bosibl bod rhai aelwydydd incwm isel heb fynediad i'r rhyngwrwd gartref nac yn y gwaith.	Mae gan y mwyafrif o oedolion yng Nghymru fynediad i'r rhyngwrwd a byddant yn gallu parhau i gymryd rhan yn y broses cyn ymgeisio fel y gwnaethant cyn COVID-19. Mae mesurau lliniaru wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau na fydd pobl heb fynediad i'r rhyngwrwd yn	Os na fydd gan aelwydydd incwm isel fynediad i'r rhyngwrwd, gallant gysylltu â'r datblygwr ar y rhif ffôn a fydd ar yr hysbysiad safle (a fydd yn cael ei arddangos y tu allan i'r safle datblygu) i ofyn am gopiâu caled o'r holl wybodaeth sydd ar gael ar-lein. Rhaid i'r datblygwr dalu unrhyw gostau

		cael eu hatal rhag cymryd rhan yn y broses ymgynghori. Byddai hyn yn cynnwys aelwydydd incwm isel.	postio. Bydd hyn yn sicrhau na fydd deiliaid cartrefi sydd ar incwm isel yn cael eu hatal rhag cymryd rhan yn y broses cyn ymgeisio.
--	--	--	---